# Lluniau o'r Dathlu — Pwy di pwy?





*(Parhad o dudalen 13)*

Sir Benfro. Ond gyda i'r Rhyfel Byd Cyntaf dorri allan, fe chwalwyd y fenter honno – ond yr oedd hi wedi gwneud ei marc. Ar ôl y rhyfel, fodd bynnag, fe sefydlwyd y Gymdeithas Ddrama Gymraeg yn Abertawe, sy'n dal i fynd hyd at heddiw. 'Fe welwyd y Ddrama Gymraeg yn ffrwydro – 'da' ni'n dal i siarad am y dadeni yng Nghymru yn yr Ugeinfed ganrif a rydym ni'n meddwl yn bennaf am ein beirdd – wrth gwrs ein bod ni – roedden nhw'n ardderchog iawn – ond o safbwynt dylanwad ar drwch pobl Cymru – y ddrama newydd oedd y dylanwad mawr.'

Roedd gan Roscomyl olwg fawr ar Gymru fel cenedl. Mae'n dweud mewn mwy nag un o'i ysgrifau fod yr awr wedi dod i'r Cymry bellach beidio a disgwyl arweiniad o Loegr, a'i bod hi'n hen bryd i'r Cymry ddechrau sefyll ar eu traed eu hunain.

Cyn y fenter fawr yma, roedd Roscomyl, yn 1909, wedi sgriptio pasiant o hanes Cymru nad oedd dim byd tebyg wedi digwydd cynt na chwedyn. Pasiant a gynhaliwyd yng Ngerddi Soffia oedd hwn, dan nawdd yr hen Farcwis o Bute a'i wraig, ac a barodd am bythefnos, gyda chast o 5000, yn cynnnig fersiwn o Hanes Cymru o ddyddiau Caradog hyd at y Ddeddf Uno. Roedd yn cynnwys 27 o olygfeydd. Roedd Roscomyl yn mynnu portreadu y Cymry fel ymladdwyr ac yn bobl ddi-ildio. Roedd yn gyfaill mawr i John Glyn Davies, ac ystyriai hwnnw fel y gwladgarwr mwyaf tanbaid yr oedd wedi'i gwrdd erioed. Mynnai J. Glyn Davies mai Roscomyl, oherwydd ei gysylltiadau â'r teulu brenhinol, oedd yn gyfrifol am Arwisgiad 1911.

Bu brwdfrydedd Hywel Teifi yn heintus, ac erbyn diwedd y prynhawn mi fyddai pawb, mi gredaf, wedi bod yn barod i aros ymlaen am y wledd nesaf.

Ond bu'n rhaid symud, ac ymlwybrodd tua deg ar hugain at y bws a'u cludodd am Groesor, gyda'r gweddill yn dilyn yn eu ceir.


Yn anffodus, roedd y tywydd wedi troi erbyn hyn ond ni wnaeth wanychu'r brwdfrydedd o gwbl wrth i'r fintai o dros hanner cant gerdded drwy bentref Croesor i ymweld â chadair goffa Bob Owen a luniwyd gan R. L. Gapper, a chael cyfle i gael golwg ar ei gartref, Ael y Bryn. Does yna ddim carreg goffa ar dalcen y tŷ, fodd bynnag. Tybed a ddylai'r Gymdeithas ystyried rhoi un? Gorffenwyd y daith drwy ymweld â Mynwent Tan Lan, a chyda gair gan John Roberts Williams daeth Sian a Nanw, merched Bob Owen, ymlaen i osod torch o rug, yn ôl ei ddymuniad, ar y bedd.

O ddarllen sawl llythyr a ddaeth i law y golygydd, mae'n amlwg ddigon fod pawb wedi'u mwynhau eu hunain yn fawr iawn. Hoffwn ddiolch yn arbennig iawn i Dyfed, a'r Athro Hywel Teifi Edwards, a'r aelodau, am sicrhau bod y diwrnod yn llwyddiant ysgubol, ac i westy Portmeirion am eu hynawsedd a'r cymorth a roddwyd wrth ei drefnu.





*Dr Rhidian Griffiths – y Cadeirydd, yn cyflwyno yr Athro Hywel Teifi.*




*Cudyn o wallt Bob Owen wedi'i fframio – eiddo Mattie Pritchard.*



*Y fintai wedi cyrraedd Croesor.*